***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 2540 (Cy.163) (C.70)

# ADDYSG, CYMRU
# CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000

*Wedi'i wneud - - 15 Medi 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 154(2) a (4) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**):

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Dysgu a Medrau 2000.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym

**1.** Daw'r darpariaethau yn y Ddeddf a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Medi 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*Sue Essex*
15 Medi 2000 Ysgrifennydd Cynulliad

(**1**) 2000 p.21
(**2**) 1998 p.38

## ATODLEN

Erthygl 2

Y DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 19 Medi 2000.

Adran 30.

Adran 47.

Adran 49.

Adran 51.

Adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 9 a bennir isod.

Atodlen 4.

Yn Atodlen 9—

paragraffau 3 a 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant,

paragraff 93.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau hynny yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 a bennir yn yr Atodlen i rym ar 19 Medi 2000.

Darperir yn y Gorchymyn ar gyfer cychwyn y darpariaethau sy'n sefydlu'r corff sydd i'w alw'n Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (adran 30) ynghyd â darpariaethau sy'n dilyn o sefydlu'r Cyngor (adran 51 a pharagraffau 3, 4 a 93 o Atodlen 9).

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dod ag Atodlen 4 i rym. Mae honno'n cynnwys darpariaethau ynghylch aelodaeth, staff a thrafodion y Cyngor a'i ofynion cyfrifydda.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dod â dwy adran arall i rym sy'n angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r Cyngor ddechrau ar y gwaith paratoi y mae ei angen er mwyn iddo ymgymryd â'i swyddogaethau llawn: adran 47 sy'n rhoi pwer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Cyngor, ac adran 49 sy'n rhoi pwer i'r Cynulliad Cenedlaethol roi grantiau i'r Cyngor.